# Llywodraeth Cymru
# Asesiad Effaith Integredig Strategol
# Asesiad Interim

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Tachwedd 2025

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53286, ISBN digidol 978-1-80633-618-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

*Mae sut rydym yn gwario arian cyhoeddus yn adlewyrchu ein blaenoriaethau a'n gwerthoedd fel llywodraeth ac fel cenedl.*

*Cyfrifoldeb pob Ysgrifennydd Cabinet yw sicrhau bod pob punt sy'n cael ei gwario yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar y bobl a wasanaethwn. Dyna pam mae ein Hasesiad Effaith Integredig Strategol yn rhan hanfodol o broses ein cyllideb. Mae'n ein helpu i ddeall beth rydym yn ei wneud, pam rydym yn ei wneud a phwy y mae ein penderfyniadau gwariant yn effeithio arnynt.*

*Mae'r Gyllideb Ddrafft eleni yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd yng Nghyllideb 2025-26, lle gwnaethom ni benderfyniadau buddsoddi sylweddol a oedd yn cyffwrdd â bywydau pobl ledled Cymru. Cafodd y dewisiadau hynny eu harwain gan ein hymrwymiad i degwch, cynaliadwyedd a chyfiawnder cymdeithasol.*

*Mae llawer o'r effeithiau cadarnhaol a nodwyd y llynedd yn cael eu teimlo heddiw, a byddant yn parhau i 2026-27 wrth i ni barhau i fuddsoddi yn y meysydd sydd bwysicaf, sef ein gwasanaethau cyhoeddus, ein cymunedau a'n dyfodol.*

*Drwy gynnal a dyfnhau'r buddsoddiadau hynny, rydym yn atgyfnerthu'r cynnydd sydd wedi'i wneud ac yn sicrhau bod ein cyllid yn parhau i sicrhau manteision gwirioneddol. Mae'r Asesiad Effaith hwn yn ein helpu i gadw golwg ar y cynnydd hwnnw, i ddeall effeithiau hirdymor ein penderfyniadau, ac i wneud yn siŵr ein bod yn defnyddio pob adnodd i'w lawn botensial.*

*Mae wedi chwarae rhan ganolog yn y gwaith o lunio Cyllideb Ddrafft 2026-27. Drwy ddod â thystiolaeth, profiad bywyd, a lleisiau cymunedau ledled Cymru at ei gilydd, mae'r Asesiad Effaith yn sicrhau bod ein cyllideb yn ddogfen foesol yn ogystal ag un ariannol, sy'n ceisio diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed, hyrwyddo cydraddoldeb, a chefnogi datblygu cynaliadwy.*

*Mae'r Asesiad Effaith yn ein galluogi i weld y cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd polisi a deall effaith gronnus ein penderfyniadau. Mae'n sicrhau bod pob punt a wariwn yn gweithio mor galed â phosibl i gyflawni dros Gymru, boed hynny'n gwella gwasanaethau cyhoeddus, yn mynd i'r afael â thlodi, neu'n ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.*

*Mae'n ein helpu i gadw at ein hegwyddorion. Mae'n offeryn ar gyfer tryloywder, atebolrwydd, ac yn anad dim, ar gyfer tegwch.*

**Mark Drakeford AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**

## Tabl Cynnwys

Rhagair ........................................................................2

Cyflwyniad ....................................................................3

Strategaeth y Gyllideb ar gyfer 2026-27 ..................................4

Arwyddion Cynnar o Effeithiau ...............................................5

Sylfaen Dystiolaeth.............................................................6

Effeithiau Penderfyniadau Allweddol ....................................10

Penderfyniadau Gwario ag Effeithiau Negyddol neu Anghymesur a Nodwyd ........................................................13

Cydweithio a Chymryd rhan ...............................................14

Sut mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn rhan o'n Proses ar gyfer y Gyllideb ....................................................16

Y Camau Nesaf ...............................................................17

## Cyflwyniad

Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn ganolog i broses y gyllideb. Rydym yn ei ddefnyddio i archwilio'r effeithiau posibl a gaiff ein penderfyniadau gwario ar gydraddoldeb, cynaliadwyedd a llesiant.

Mae'r Asesiad Effaith yn adnodd strategol sy'n helpu Llywodraeth Cymru i ddeall yn well sut mae ein dewisiadau'n effeithio ar wahanol gymunedau, yn enwedig y rhai sydd â'r risg fwyaf o fod dan anfantais. Mae'n dwyn tystiolaeth ynghyd ac yn ein helpu i gysoni ein cyllideb ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Rhaglen Lywodraethu.

Eleni, rydym wedi mabwysiadu dull newydd. Caiff yr Asesiad Effaith Integredig Strategol ei gyhoeddi mewn dau gam: mae'r ddogfen interim hon yn cyd-fynd â'r Gyllideb Ddrafft Fanwl ac mae'n nodi'r arwyddion cynnar o effaith, y rhesymeg dros ein strategaeth ar gyfer y gyllideb, a'r camau nesaf yn ein proses asesu. Caiff fersiwn derfynol ei chyhoeddi adeg y Gyllideb Derfynol.

Mae'r dull newydd yn ein galluogi i adeiladu ar wybodaeth gynnar, ymgorffori adborth gan randdeiliaid a sesiynau craffu, a dyfnhau ein dadansoddiad cyn y Gyllideb Derfynol. Yn bwysig, bydd yn sicrhau bod yr holl benderfyniadau a wneir yng Nghyllideb 2026-27 yn cael eu hystyried fel rhan o'n hasesiad. Mae'n ymateb i alwadau am fwy o eglurder, tystiolaeth fwy amserol, a ffocws cryfach ar broses.

## Strategaeth y Gyllideb ar gyfer 2026-27

Mae Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn adeiladu ar sylfeini cadarn Cyllideb Derfynol 2025-26, gan gynyddu penderfyniadau buddsoddi mewn meysydd gwariant cyhoeddus allweddol - ym maes iechyd, addysg, tai a gweithredu ar yr hinsawdd - yn unol â'r rhagolygon sydd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol am chwyddiant. Drwy barhau â'r cyllid sydd ar gael i bob rhan o Lywodraeth Cymru mewn termau real, rydym yn diogelu'r cynnydd a wnaed dros 2025-26 ac yn sicrhau bod cyllid yn parhau i sicrhau canlyniadau a newid gwirioneddol. Mae'r strategaeth hon yn adlewyrchu dealltwriaeth ddofn o natur hirdymor newid, ac ymrwymiad i sefydlogrwydd, tegwch a thryloywder o ran sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio.

Mae ein strategaeth gyllidebol yn cael ei siapio gan y pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

- **Yr hirdymor** - Mae buddsoddi mewn gwasanaethau craidd yn sicrhau cynaliadwyedd a gwydnwch.
- **Atal** - Mae cyllid sefydlog yn helpu i osgoi dirywiad a chostau yn y dyfodol.
- **Integreiddio** - Mae penderfyniadau ynghylch y gyllideb yn cyd-fynd â nodau trawsbynciol, fel lleihau tlodi a gwella iechyd.
- **Cydweithio** - Mae gweithdai a grwpiau cynghori wedi siapio'r gyllideb a'r asesiad hwn.
- **Cynnwys** - Mae'r broses newydd ar gyfer yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn cynnwys mwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys rhwydweithiau cydraddoldeb, y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb (BIIAG), a'n partneriaid.

Mae'r sefydlogrwydd hwn yn rhoi llwyfan i gynnydd. Mae'n galluogi cynllunio hirdymor, yn cefnogi camau ataliol, ac yn rhoi sicrwydd i'r rhai sy'n dibynnu ar wasanaethau cyhoeddus. Mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd, mae'r strategaeth hon ar gyfer y gyllideb yn ddewis bwriadol i ddiogelu'r hyn sydd bwysicaf ar yr un pryd â rhoi sicrwydd i wasanaethau cyhoeddus wrth baratoi ar gyfer etholiadau'r Senedd.

Rydym yn cydnabod y cyfyngiadau sy'n ein hwynebu. Mae chwyddiant yn parhau i fod yn uchel, ac mae pwysau cyflogau'r sector cyhoeddus yn parhau. Er gwaethaf setliad ffafriol gan Lywodraeth y DU, mae'r amgylchedd ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus yn dal yn heriol. Ac eto, o fewn y cyfyngiadau hyn, mae cyfleoedd i'w cael. Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn rhoi sefydlogrwydd, sydd ynddo'i hun yn sbarduno effaith gadarnhaol. Mae'n galluogi arloesedd, yn cefnogi dulliau ataliol, ac yn galluogi adrannau i gynllunio'n hyderus.

Man cychwyn proses gyllidebol Llywodraeth Cymru yw'r Gyllideb Ddrafft - nid ei diwedd hi. Mae ein strategaeth yn gadael cyfle i fuddsoddi rhagor yn y Gyllideb Derfynol ym mis Ionawr. Ein huchelgais gadarn yw sicrhau Cyllideb Derfynol sy'n defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael ar gyfer 2026-27. Rydym yn agored i gydweithio â phleidiau eraill yn y Senedd i gytuno ar gyllideb, gan bwysleisio'r cyfrifoldeb ar y cyd i basio cyllideb er budd holl ddinasyddion Cymru.

Byddai methu â phasio cyllideb yn arwain at ganlyniadau difrifol, a byddai'n arwain at gyllidebau cyfyngedig iawn ar gyfer pob rhan o'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus. Byddai'n peryglu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen, yn peryglu miloedd o swyddi, ac yn peryglu tarfu'n ehangach ar yr economi. Byddai cyfyngiadau ar wariant yn cael eu teimlo ar draws pob cymuned a sector.

Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol wedi helpu i lywio'r dull strategol o ymdrin â Chyllideb Ddrafft 2026-27 er mwyn osgoi'r effeithiau negyddol hyn.

## Arwyddion Cynnar o Effeithiau

Mae Cyllideb Ddrafft 2026-27 wedi cael ei datblygu yng nghyd-destun ansicrwydd economaidd parhaus yn y DU ac yn fyd-eang, pwysau parhaus ar wasanaethau cyhoeddus, ac effaith barhaus penderfyniadau a wnaed yn y blynyddoedd a fu.

Yn bwysig ar gyfer asesu effaith y gyllideb eleni, mae’r strategaeth ar gyfer cyllideb 2026-27 yn adeiladu ar y penderfyniadau gwario mawr a wnaed yn 2025-26. Roedd y gyllideb honno'n drobwynt, gyda buddsoddiadau ychwanegol sylweddol mewn iechyd, addysg, gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd, a llywodraeth leol, ar ôl blynyddoedd o gyfyngiadau.

Mae’r dadansoddiad cynnar yn awgrymu y bydd effeithiau Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn cyd-fynd yn fras ag effeithiau 2025-26. Mae hyn yn adlewyrchu natur y gyllideb, a'r penderfyniad i gynnal lefelau cyllido mewn termau real.

Roedd Asesiad Effaith Integredig Strategol 2025-26 yn nodi amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol yn sgil y penderfyniadau hynny, gan gynnwys:

- **Dyfarniadau cyflog uwch na chwyddiant i weithwyr yn y sector cyhoeddus**, gan gefnogi mwy na 200,000 o weithwyr ar draws y GIG, addysg a llywodraeth leol - llawer ohonynt yn fenywod mewn swyddi sy'n talu llai.
- Mwy o gyllid ar gyfer **gofal cymdeithasol**, gan helpu i fynd i'r afael ag oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty, a gwella gwasanaethau i bobl hŷn a'r rhai sydd ag anghenion iechyd cymhleth.

- Cymorth i **blant a theuluoedd**, gan gynnwys ehangu gofal plant drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg a thargedu buddsoddiad mewn addysg i leihau'r bylchau cyrhaeddiad ymysg disgyblion difreintiedig.
- Buddsoddi mewn **trafnidiaeth gyhoeddus**, gyda chyllid ar gyfer gwasanaethau bysiau a gwelliannau i'r rheilffyrdd sydd o fudd i gymunedau gwledig, pobl anabl, a'r rhai mewn gwaith ansicr.
- Gweithredu ar yr **hinsawdd a natur**, gyda'n gwariant cyfalaf cyffredinol yn fwy na £3bn am y tro cyntaf, gan alluogi gwelliannau i'r seilwaith i gefnogi datgarboneiddio a gwydnwch.

Roedd y buddsoddiadau hyn yn arwyddocaol yn ariannol, a hefyd yn bwysig yn gymdeithasol a strategol. Roeddent yn helpu i liniaru effeithiau gwaethaf yr argyfwng costau byw, lleihau anghydraddoldebau, a chefnogi'r nodau llesiant sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, man cychwyn ar gyfer y gyllideb eleni yw'r Gyllideb Ddrafft, a'n bwriad clir ni yw defnyddio ein holl adnoddau i gyhoeddi Cyllideb Derfynol fwy uchelgeisiol ym mis Ionawr. Felly, mae'r adroddiad interim hwn o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn rhoi tystiolaeth i ni ei hystyried wrth i'r dyraniadau terfynol hynny gael eu penderfynu.

Bydd yr effeithiau cynnar a nodwyd yn sail i gam nesaf proses y gyllideb, wrth i ni geisio defnyddio cyllid heb ei ddyrannu mewn ffordd sy'n adlewyrchu gwerthoedd Llywodraeth Cymru ac sy'n lleihau anghydraddoldebau ac effeithiau anghymesur.

## Sylfaen Dystiolaeth

Mae ystod eang o dystiolaeth am brofiadau bywyd pobl yng Nghymru yn sylfaen i Gyllideb Ddrafft 2026-27. Mae'r dystiolaeth hon yn ein helpu i ddeall ar bwy mae pwysau'n effeithio fwyaf, lle mae anghydraddoldebau'n parhau, a sut gall gwariant cyhoeddus wneud y gwahaniaeth mwyaf.

**Ymchwil yr Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb**

Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru luniodd y dystiolaeth gychwynnol a gafodd ei hystyried gan y Cabinet. Roedd yn cyfosod ymchwil a data diweddar o amrywiaeth eang o ffynonellau er mwyn llywio penderfyniadau cyllidebol. Mae ei gwaith yn canolbwyntio ar bobl â nodweddion gwarchodedig - oedran, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd a chrefydd - ac mae'n tynnu sylw at sut gall y nodweddion hyn groestorri, gan ddwysáu anfantais.

Daw'r dystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys:

- Arolwg Cenedlaethol Cymru.
- Cyfrifiad 2021.
- Data gan sefydliadau fel Ymddiriedolaeth Trussell, Sefydliad Bevan, a'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion.
- Adroddiadau gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) ac astudiaethau eraill ledled y DU .

Cafodd tystiolaeth gan ein Huned Tystiolaeth Cydraddoldeb hefyd ei chyflwyno a'i thrafod yn un o weithdai'r Asesiad Effaith Integredig Strategol. Roedd yn dangos y canlynol:

- Mae menywod yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar oherwydd cyfrifoldebau gofalu. Maent hefyd yn fwy tebygol o fod yn amlwg mewn sectorau sy'n talu'n wael, ac o wynebu heriau fforddiadwyedd tai yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol.
- Mae pobl anabl yn fwy tebygol o fyw mewn tai gorlawn, profi iechyd gwael, bod heb unrhyw gymwysterau a bod yn economaidd anweithgar.
- Mae cymunedau ethnig lleiafrifol yn wynebu cyfraddau uwch o dlodi incwm, lefel is o berchnogaeth tai, a lefel uwch o orlenwi.
- Mae cyfraddau uwch o anweithgarwch economaidd ymysg unigolion LHD+, er ei bod yn bosibl mai'r proffil oedran iau sy'n gyfrifol am hyn. Mae iechyd cyffredinol pobl LHD+ yn waelach hefyd, er eu bod yn iau ar gyfartaledd.

**Dadansoddiad Dosbarthiadol o Wariant Cyhoeddus yng Nghymru**

Cafodd y Dadansoddiad Dosbarthiadol ei lunio gan yr Is-adran Economeg a Dadansoddi Cyllidol yn Nhrysorlys Cymru. Mae'n asesu effaith ddosbarthiadol gwariant cyhoeddus adnoddau datganoledig yng Nghymru yn 2026-27 ar draws aelwydydd o wahanol incwm.

Mae'r dadansoddiad wedi canfod bod gwariant ar y gwasanaethau a ddarperir yn gynyddrannol ar y cyfan, o ran incwm aelwydydd – sy'n golygu bod aelwydydd incwm is yn tueddu i elwa mwy – er nad yw hyn yn gyson ar draws y dosbarthiad incwm cyfan. Ar gyfartaledd, mae cyfanswm gwariant y pen yn uwch ar gyfer unigolion sy'n is i lawr dosbarthiad incwm aelwyd nag ar gyfer y rhai ar y brig.

Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad hefyd yn tynnu sylw at rai meysydd lle nad yw gwariant yn gynyddraddol. Er enghraifft, gwelir bod gwariant ar drafnidiaeth gyhoeddus yn ostyngraddol braidd ar y cyfan; er bod gwariant ar wasanaethau bysiau yn gynyddraddol, mae cymorthdaliadau rheilffyrdd yn tueddu i fod o fwy o fudd i aelwydydd ag incwm uwch.

**Tystiolaeth gan Economegwyr Iechyd**

Yn ein gweithdai, trafodwyd gwybodaeth gan economegwyr iechyd. Maent yn tanlinellu pwysigrwydd blaenoriaethu a chost cyfle mewn gwariant ar iechyd. Mae defnyddio Cyllidebu Rhaglenni a Dadansoddi Ymylol a Dadansoddiad Penderfyniad Meini Prawf Lluosog yn dangos sut gall dulliau dyrannu adnoddau gael eu llywio gan dystiolaeth, tegwch a gwerth am arian.

Gallwn gymhwyso hyn i ddau benderfyniad allweddol ym maes gofal i dynnu sylw at eu pwysigrwydd a'u heffeithiau posibl:

**Gofal plant** – Mae'r buddsoddiad ychwanegol mewn gofal plant yn 2025-26 yn parhau ac yn cefnogi teuluoedd sy'n gweithio, yn enwedig menywod, y mae costau gofal plant cynyddol a chyfrifoldebau gofalu yn effeithio'n anghymesur arnynt.

**Gofal Cymdeithasol** – Drwy barhau â'r cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol yn 2025-26 i wella'r broses o ryddhau cleifion o ysbytai ac i helpu i ddarparu gofal cymdeithasol, rydym yn rhoi sefydlogrwydd i awdurdodau lleol i'w galluogi i gynnal gwasanaethau ac i gynllunio ar gyfer diwygio. Rydym yn parhau â'n hymrwymiad i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol, sy'n cefnogi menywod sy'n 78% o'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

**Pam mae hyn yn bwysig i'r gyllideb**
Mae'r dystiolaeth hon yn atgyfnerthu pwysigrwydd cyllideb sy'n deg, yn gynhwysol ac wedi'i thargedu. Mae'n dangos lle gall buddsoddiad cyhoeddus helpu i leihau anghydraddoldeb, gwella canlyniadau, a chefnogi'r rhai sydd â'r risg fwyaf. Mae hefyd yn tynnu sylw at yr angen am weithredu cydgysylltiedig ar draws iechyd, addysg, tai, trafnidiaeth a chyflogaeth i fynd i'r afael â'r realiti cymhleth sy'n wynebu pobl.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn defnyddio'r dystiolaeth hon i brofi penderfyniadau'r gyllideb ac i sicrhau bod cyllid yn cael ei gyfeirio lle gall gael yr effaith fwyaf.

**Defnyddio Tystiolaeth Ymhob Rhan o Broses y Gyllideb**
Cafodd y dystiolaeth a gasglwyd ei defnyddio'n weithredol i lywio penderfyniadau ar bob cam o broses cyllideb 2026-27.

Mis Mehefin - Trafodaethau am Strategaeth y Gyllideb - Cafodd ymchwil yr Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb ei hystyried gan y Cabinet yn ystod ei drafodaethau strategol ym mis Mehefin yn unol â'n Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Defnyddiodd Gweinidogion y canfyddiadau i ddeall y cyd-destun cymdeithasol ac economaidd, asesu risgiau anfanteision, a llunio cyfeiriad cyffredinol y gyllideb.

Haf - Penderfyniadau Adrannol ynghylch Dyrannu - Ar ôl cytuno ar strategaeth gyffredinol y gyllideb, roedd y dystiolaeth ar gael i dimau ar draws Llywodraeth Cymru. Roedd yn cefnogi Gweinidogion Cymru mewn penderfyniadau ynghylch sut i ddyrannu cyllid o fewn eu portffolios.

Mis Medi a mis Hydref - Gweithdai Trawslywodraethol - cynhaliwyd cyfres o weithdai ym mis Medi a mis Hydref. Daeth y sesiynau hyn â swyddogion o bob adran at ei gilydd i drafod y canfyddiadau, rhannu gwybodaeth, a sicrhau bod y bobl iawn yn gallu cael gafael ar y dystiolaeth wrth gynghori gweinidogion, wrth i ni symud i gam nesaf proses y gyllideb.

Mae'r broses hon yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i lunio polisïau ar sail tystiolaeth. Mae'n sicrhau nad yw penderfyniadau'n cael eu gwneud ar eu pen eu hunain, ond eu bod, yn hytrach, yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o bwy y maent yn effeithio arnynt, sut, a pham.

## Beth ddywedodd y dystiolaeth wrthym

**Iechyd**

- Mae pobl hŷn, anabl, draws, neu o gymunedau Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yn fwy tebygol o fod mewn iechyd gwael.
- Mae menywod yn byw'n hirach na dynion ond yn treulio llai o flynyddoedd mewn iechyd da.
- Mae llesiant meddyliol yn uwch ymysg pobl hŷn, ond mae cyfraddau hunanladdiad yn dal yn sylweddol uwch ymysg dynion.

**Swyddi ac Incwm**

- Mae menywod, pobl anabl, a chymunedau ethnig lleiafrifol yn llai tebygol o fod mewn gwaith.
- Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi lleihau.
- Mae aelwydydd sydd â pherson anabl, neu lle mae'r penteulu o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol yn fwy tebygol o fod mewn tlodi.

**Cartrefi**

- Mae pobl anabl a rhai cymunedau ethnig lleiafrifol yn fwy tebygol o fyw mewn tai cymdeithasol ac amgylchiadau gorlawn.
- Mae pobl o gefndiroedd Gwyn yn fwy tebygol o fod yn berchen ar eu cartrefi, tra bod sawl cymuned ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o fyw mewn llety rhent.

**Addysg**

- Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn mewn canlyniadau TGAU ac maent yn fwy tebygol o barhau mewn addysg ar ôl 16 oed.
- Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o fod yn absennol o'r ysgol yn gyson.
- Mae pobl anabl bron deirgwaith yn fwy tebygol o fod heb unrhyw gymwysterau.

**Trafnidiaeth**

- Mae pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn llai tebygol o fod yn berchen ar gar ac yn fwy tebygol o ddibynnu ar fysiau.
- Mae defnyddio car hefyd yn amrywio yn ôl oedran, math o aelwyd a ffactorau economaidd-gymdeithasol eraill.

**Anabledd**

- Mae pobl anabl yn fwy tebygol o fod mewn tlodi, yn ddi-waith ac yn wynebu amddifadedd materol.
- Roedd pobl anabl y mae eu cyflwr yn cyfyngu llawer arnynt ymhlith y rhai mwyaf tebygol o ddweud bod eu sefyllfa ariannol yn effeithio'n negyddol ar eu hiechyd meddwl a chorfforol.
- Mae pobl anabl yn fwy tebygol o deimlo'n unig ac yn anniogel, ac o brofi cam-drin domestig.

**Ethnigrwydd**

- Mae cymunedau ethnig lleiafrifol yn wynebu cyfraddau uwch o dlodi, lefel is o berchnogaeth tai, a lefel uwch o orlenwi.
- Er gwaethaf gwelliannau, mae bylchau cyflogaeth yn parhau rhwng grwpiau Gwyn a grwpiau ethnig lleiafrifol.
- Mae disgyblion ethnig leiafrifol yn llwyddo i gael canlyniadau TGAU cryf.

**Cymunedau LHDTC+**

- Mae pobl LHDTC+ yn fwy tebygol o brofi iechyd meddwl gwael ac unigrwydd, ac o fyw mewn llety rhent.
- Mae pobl draws yn fwy tebygol o fod yn anabl ac yn sâl.
- Mae pobl ifanc LHDTC+, yn enwedig rhai o liw, yn dweud eu bod yn cael eu bwlio a'u cam-drin yn aml.

**Crefydd**

- Mae pobl o grwpiau crefyddol lleiafrifol yn llai tebygol o fod mewn gwaith ac yn fwy tebygol o fyw mewn tai gorlawn.
- Cristnogion sydd fwyaf tebygol o fod yn berchen ar eu cartrefi, tra bo Mwslimiaid yn fwyaf tebygol o fyw mewn tai rhent.

## Effeithiau Penderfyniadau Allweddol

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys rhai dyraniadau lle mae'r Cabinet wedi dewis gwneud buddsoddiadau bwriadol ac ychwanegol yn 2026-27. Penderfyniadau bwriadol yw'r rhain, wedi'u hategu gan y dystiolaeth uchod, a fydd yn helpu i sicrhau effeithiau cadarnhaol. Mae'r adran hon yn nodi rhai o'r penderfyniadau hynny, a'r dystiolaeth a oedd yn sail iddynt.

### 1. Tystiolaeth sy'n Cefnogi Buddsoddiad Parhaus mewn Gofal Cymdeithasol

Mae'r penderfyniad i gynnwys y £30m ar gyfer gofal cymdeithasol, a oedd yn rhan o gytundeb cyllideb 2025-26, yn rhan o linell sylfaen y cyllid yn adlewyrchu'r effaith gadarnhaol y mae'r buddsoddiad hwn yn ei chael ar wella canlyniadau i grwpiau agored i niwed a lleddfu'r pwysau ar y system iechyd a gofal ehangach.

**Pobl Hŷn a Chanlyniadau Iechyd**

- Yn 2023, roedd 21.6% o boblogaeth Cymru yn 65 oed a hŷn, sy'n dangos galw cynyddol am iechyd a gofal sy'n gysylltiedig ag oedran.
- Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod iechyd cyffredinol yn dirywio'n raddol gydag oedran, gan atgyfnerthu'r angen am lwybrau gofal ymatebol.
- Mae pobl hŷn yn adrodd am lesiant meddyliol uwch na grwpiau iau ond maent yn fwy tebygol o brofi heriau iechyd corfforol sy'n gofyn am gydlynu gwasanaethau.

**Pobl Anabl a Mynediad at Wasanaethau**

- Dywedodd 21.1% o bobl yng Nghymru eu bod yn anabl, gyda 10% yn dweud bod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig iawn.
- Mae pobl anabl yn fwy tebygol o fyw mewn amddifadedd materol, o ddioddef iechyd gwael, ac o adrodd am fynediad cyfyngedig at wasanaethau.

**Effaith ar Ryddhau o'r Ysbyty a Phwysau ar y System**

- Mae'r dystiolaeth am iechyd gwael ymysg poblogaethau hŷn ac anabl, ynghyd ag amddifadedd materol a mynediad cyfyngedig at wasanaethau, yn cefnogi'r angen am lwybrau gofal integredig.
- Mae'r cyllid yn gwella'r cydlyniad rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, gan leihau oedi ar draws y system iechyd a gofal, a chefnogi pobl i wella o salwch ac anafiadau gartref.

### 2. Tystiolaeth sy'n Cefnogi Buddsoddiad Parhaus mewn Gofal Plant

Mae'r penderfyniad i ymgorffori £30m o gyllid ychwanegol ar gyfer gofal plant, a oedd yn rhan o gytundeb cyllideb 2025-26, yn y llinell sylfaen, yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gymorth ar gyfer y blynyddoedd cynnar, mynd i'r afael â thlodi plant, a gwella canlyniadau hirdymor i blant a theuluoedd.

**Tlodi Plant ac Anfantais yn y Blynyddoedd Cynnar**

- Plant yw’r grŵp oedran mwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol yn Nghymru. Rhwng 2021-2022 a 2023-2024, roedd 31% o blant mewn tlodi incwm cymharol, o'i gymharu â 15% o bensiynwyr a 21% o oedolion o oedran gweithio.
- Plant mewn aelwydydd heb waith sy'n wynebu'r risg uchaf, gyda 56% mewn tlodi, o'i gymharu â 27% mewn aelwydydd sy'n gweithio. Hyd yn oed mewn aelwydydd sy'n gweithio, mae cyfraddau tlodi'n amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar batrymau cyflogaeth.

- Mae tlodi parhaus yn effeithio ar 16% o blant, sy'n uwch nag unrhyw grŵp oedran arall. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd ymyrraeth gynnar i dorri cylchoedd anfantais.

**Canlyniadau Addysgol a Phresenoldeb**

- Yn 2024-25, roedd disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim bron ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn absennol yn gyson o'r ysgol (49.7%) o'i gymharu â'r rhai nad oeddent yn gymwys (20.4%).
- Gall cymorth ar gyfer y blynyddoedd cynnar drwy Dechrau'n Deg helpu i wneud plant yn fwy parod ar gyfer yr ysgol, gwella presenoldeb, a gwella cyrhaeddiad hirdymor yn yr ysgol, yn enwedig i blant o aelwydydd incwm isel.

**Cymorth i Fenywod a Theuluoedd**

- Mae menywod yn cael eu cynrychioli'n anghymesur ymysg y rhai sy'n defnyddio banciau bwyd ac sy'n profi trais domestig.
- Mae gofal plant fforddiadwy yn cefnogi menywod i gymryd rhan yn y gweithlu, gan helpu i leihau anghydraddoldebau rhwng y rhywiau o ran cyflogaeth ac incwm.

**Effaith ar Ddarparwyr a Chynaliadwyedd**

- Mae cynyddu'r gyfradd fesul awr i £6.40 yn helpu i sicrhau bod darparwyr gofal plant yn gallu darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, cadw staff, a pharhau i fod yn hyfyw yn ariannol—yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd uchel neu yng nghefn gwlad Cymru lle mae'r costau'n uwch.

**3. Tystiolaeth sy’n Cefnogi’r Cynllun Peilot Tocynnau Bws i Bobl Ifanc**

Mae’r cynllun peilot hwn wedi’i gynllunio i wella mynediad at drafnidiaeth i bobl ifanc, lleihau costau i deuluoedd, a chefnogi teithio cynaliadwy.

**Anghydraddoldeb Trafnidiaeth ymysg Pobl Ifanc**

- Mae perchnogaeth ar gar yn amrywio yn ôl oedran, gyda phobl iau a phobl hŷn yn llai tebygol o fod yn berchen ar gar ac yn fwy dibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus.
- Mae’r dystiolaeth yn awgrymu bod y defnydd o fysiau yn uwch ymhlith grwpiau oedran iau a phobl sy’n ddi-waith neu’n economaidd anweithgar. Mae hyn yn awgrymu y gall prisiau bysiau fforddiadwy gael effaith uniongyrchol ar symudedd a mynediad at gyfleoedd.

**Tlodi a Phwysau Costau Byw**

- Mae tlodi’n effeithio’n anghymesur ar blant a phobl ifanc, gyda 31% o blant mewn tlodi incwm cymharol ac 16% yn profi tlodi parhaus.
- Gall trafnidiaeth fforddiadwy helpu i leihau rhwystrau rhag addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a chyfranogiad cymdeithasol, yn enwedig i bobl mewn aelwydydd di-waith neu incwm isel.

**Cymorth ar gyfer Addysg ac Ymgysylltu**

- Mae’r cynllun yn cefnogi gallu pobl ifanc i fynychu’r ysgol, coleg, prentisiaethau a lleoliadau gwaith, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu’n ddigonol.

- Mae hefyd yn cyd-fynd â phryderon a godwyd gan bobl ifanc eu hunain: canfu arolwg yn 2022 mai newid yn yr hinsawdd oedd y pryder mwyaf cyffredin ymysg plant 7-18 oed, sy'n awgrymu cefnogaeth gref i opsiynau trafnidiaeth carbon isel.

**Manteision Croestoriadol**

- Mae'r cynllun peilot yn debygol o fod o fudd i bobl ifanc anabl, sy'n fwy pryderus am y newid yn yr hinsawdd.
- Mae hefyd yn cefnogi cymunedau ethnig lleiafrifol, sy'n llai tebygol o fod yn berchen ar gar ac sy'n fwy tebygol o ddibynnu ar fysiau i deithio'n rheolaidd.

## 4. Tystiolaeth sy'n Cefnogi Cyllid ar gyfer Cyflogwyr Sector Cyhoeddus a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol

Yn ystod 2025-26, darparodd Llywodraeth Cymru £36m yn ychwanegol (yn ogystal â'r £185m a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU) i helpu cyflogwyr yn y sector cyhoeddus i dalu costau cynyddol cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Ar gyfer 2026-27, mae'r cyllid ychwanegol hwn wedi'i ymgorffori yn y llinell sylfaen ac wedi'i gynyddu ar gyfer chwyddiant, gan sicrhau cefnogaeth barhaus i wasanaethau cyhoeddus craidd.

Mae'r penderfyniad hwn yn adlewyrchu ymrwymiad strategol i ddiogelu darpariaeth rheng flaen. Heb y cyllid hwn, byddai sefydliadau'r sector cyhoeddus yn gorfod amsugno'r holl fwlch o ran bodloni'r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr o'u cyllidebau presennol—gan leihau'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau hanfodol fel iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a llywodraeth leol.

Drwy lenwi 50% o'r bwlch yn ganolog, mae Llywodraeth Cymru yn:

- **Diogelu darpariaeth gwasanaethau** drwy alluogi adrannau a chyrff cyhoeddus i ganolbwyntio mwy o'u cyllid craidd ar ganlyniadau, nid gorbenion.
- **Cefnogi sefydlogrwydd y gweithlu**, yn enwedig mewn sectorau lle mae costau staffio yn gyfran fawr o gyllidebau.
- **Lleihau'r pwysau ariannol** ar wasanaethau sydd eisoes dan bwysau chwyddiant, y galw cynyddol, a heriau'r gweithlu.

Mae'r dull hwn yn sicrhau bod arian cyhoeddus yn parhau i gael ei ddefnyddio lle mae'n cael yr effaith fwyaf, sef mewn ystafelloedd dosbarth, clinigau, cartrefi gofal a chymunedau ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflwyno'r achos i Lywodraeth y DU y dylai dalu holl gostau cyfraniadau Yswiriant Gwladol uwch i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, yn union fel y gwnaeth i'r sector cyhoeddus yn Lloegr.

## Penderfyniadau Gwario ag Effeithiau Negyddol neu Anghymesur a Nodwyd

Mae'n bwysig ein bod yn edrych yn ôl ar Asesiad Effaith Integredig Strategol 2025-26 er mwyn sicrhau ein bod yn gwbl ymwybodol o unrhyw effeithiau negyddol neu anghymesur sy'n deillio o'r penderfyniadau gwario a wnaed y llynedd ac i ystyried ein dewisiadau ar gyfer eleni.

Tynnodd Asesiad Effaith Integredig Strategol 2025-26 sylw at rai meysydd lle gallai penderfyniadau ynghylch y gyllideb gael effeithiau anfwriadol neu anghymesur, yn enwedig ar grwpiau agored i niwed.

Rhaid i ni gydnabod hefyd fod dull Cyllideb 2026-27 yn golygu y gallai'r effeithiau negyddol posibl hyn gael eu hailadrodd am ail flwyddyn ac y gallai'r effaith fod yn fwy.

Mae'r rhain yn cynnwys:

**Pwysau ar Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Bydd mwy o bwysau a galw ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn effeithio'n anghymesur ar y canlynol:

- Menywod, sy'n gyfran uwch o'r gweithlu yn y sectorau hyn.
- Pobl hŷn, plant, a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd cymhleth, sy'n fwy dibynnol ar y gwasanaethau hyn.

Cynyddwyd y cyllid y llynedd ond mae galw parhaus a phwysau chwyddiant yn golygu y gallai rhai grwpiau brofi llai o fynediad neu ansawdd gofal. Nid yw dull cyllideb 2026-27 yn lliniaru'r effaith hon. Bydd angen ystyried y dystiolaeth hon yn ofalus yng ngham nesaf proses y gyllideb ac wrth baratoi'r Gyllideb Derfynol.

**Penderfyniadau ynghylch Gwasanaethau Bysiau**

Nodwyd bod penderfyniadau sy'n effeithio ar wasanaethau bysiau yn cael effeithiau anghymesur ar fenywod, cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl anabl, pobl hŷn ac iau, gweithwyr ansicr ac ar gyflog isel, a chymunedau gwledig, lle mae llai o wasanaethau'n cynyddu'r ddibyniaeth ar geir preifat. Fodd bynnag, nid oedd dyraniadau ychwanegol a wnaed yng Nghyllideb Derfynol 2025-26 yn cael eu hadlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol ond maent bellach wedi'u hymgorffori yn y llinell sylfaen. Mae hyn yn lliniaru'r effeithiau negyddol yn rhannol drwy alluogi buddsoddiad parhaus.

**Cyfranogiad a Mynediad Diwylliannol**

Tynnodd yr Asesiad Effaith Integredig Strategol sylw at y ffaith fod mynediad at y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn dal yn anghyfartal, gyda rhwystrau i'r canlynol:

- Pobl o gymunedau ethnig amrywiol.
- Pobl mewn ardaloedd gwledig.
- Pobl ag anableddau.
- Pobl sy'n wynebu anfantais economaidd.

Efallai y bydd y grwpiau hyn yn ei chael hi'n anoddach cael mynediad at safleoedd a phrofiadau diwylliannol oherwydd rhwystrau ffisegol, ariannol a thybiedig.

Er mwyn helpu i liniaru'r effaith hon, dyrannwyd £4.38m ychwanegol yng Nghyllideb Derfynol 2025-26. Mae'r cyllid hwn wedi'i ymgorffori yn y llinell sylfaen yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27.

**Tai a Digartrefedd**

Tynnodd Asesiad Effaith Integredig Strategol 2025-26 sylw at y ffaith fod anghydraddoldebau tai yn parhau, yn enwedig ar gyfer pobl anabl, cymunedau ethnig lleiafrifol, aelwydydd un rhiant a theuluoedd incwm isel.

Dywedodd Sefydliad Bevan fod y nifer uchaf erioed o aelwydydd mewn llety dros dro, sawl un o ansawdd gwael ac yn cynnwys plant.

Y portffolio Llywodraeth Leol a Thai sydd â'r gyllideb gyfalaf fwyaf yn Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn darparu buddsoddiad sylweddol yn y Grant Tai Cymdeithasol a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro sy'n ceisio darparu mwy o gartrefi ac sy'n cefnogi ein gwaith i roi diwedd ar ddigartrefedd.

Fodd bynnag, er mwyn lliniaru'r holl effeithiau negyddol yn llawn, byddai angen dyraniadau mwy o faint.

**Bylchau Addysg a Chyrhaeddiad**

Er gwaethaf y cynnydd mewn cyllid, roedd Asesiad Effaith Integredig Strategol 2025-26 yn cydnabod bod bylchau cyrhaeddiad addysgol yn dal yn amlwg, yn enwedig ymysg plant a phobl ifanc anabl, plant o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig a disgyblion sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r grwpiau hyn yn parhau i wynebu rhwystrau rhag mynediad cyfartal at ofal plant ac addysg.

Rydym yn blaenoriaethu buddsoddiad i ddarparu cymorth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gyda £5m ychwanegol drwy'r portffolio Addysg, sy'n adeiladu ar y £10m a ddarparwyd yn y llinell sylfaen yn 2025-26. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r effaith a amlygwyd yn Asesiad Effaith Integredig Strategol 2025-26.

## Cydweithio a Chymryd rhan

Mae ein dull gweithredu ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2026-27 wedi cael ei siapio drwy ymgysylltu a chydweithio'n helaeth ag amrywiaeth eang o randdeiliaid. Roedd y cyfarfodydd a'r trafodaethau amrywiol wedi rhoi mewnwelediadau ychwanegol sy'n cyfoethogi'r sylfaen dystiolaeth a baratowyd gan arbenigwyr Llywodraeth Cymru. Mae'r adran hon yn tynnu sylw at nifer fach o'r materion a drafodwyd, a oedd yn sail i'r penderfyniadau a wnaed yn y Gyllideb Ddrafft, ac a fydd yn cael eu defnyddio drwy broses y gyllideb eleni.

**Ymgysylltu â Chomisiynwyr Statudol**

Cyfarfu Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg â phob un o bedwar Comisiynydd Cymru yn ystod y gwaith o Ddatblygu'r Gyllideb Ddrafft.

- Rhannodd y **Comisiynydd Plant** wybodaeth am y pwysau ariannol ar ysgolion a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar gefnogi plant ag anghenion ymddygiad cymhleth a chael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl. Roedd y comisiynydd yn falch fod hawliau plant wedi'u cynnwys wrth gynllunio'r gyllideb a bod canllawiau wedi'u datblygu i wreiddio'r lens hon ar draws penderfyniadau'r llywodraeth.

- Pwysleisiodd **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** bwysigrwydd defnyddio'r pum ffordd o weithio, yn enwedig ataliaeth a meddwl am y tymor hir.

- Soniodd **Comisiynydd y Gymraeg** am y manteision y byddai gweithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg yn eu cael pe bai adnoddau priodol yn cael eu darparu. Croesawodd y comisiynydd y ffaith fod cyllid ar gyfer y celfyddydau'n cael ei adfer, a galwodd am fuddsoddiad beiddgar wedi'i dargedu er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl.
- Tynnodd y **Comisiynydd Pobl Hŷn** sylw at fanteision buddsoddiad ataliol mewn gwasanaethau cymunedol, cynhwysiant digidol, a thrafnidiaeth.

Mae'r trafodaethau hyn wedi cyfrannu'n uniongyrchol at gyfeiriad strategol y gyllideb, gan gynnwys fframio'r buddsoddiad sydd wedi'i ailddatgan mewn gofal cymdeithasol a gofal plant fel mesurau ataliol, a phroses yr Asesiad Effaith Integredig Strategol diwygiedig sy'n integreiddio adborth gan Gomisiynwyr a rhanddeiliaid.

**Ymgysylltu â Phartneriaid Cymdeithasol a Sectoraidd**

Rydym hefyd wedi ymgysylltu â'r canlynol:

- **Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol**, gan sicrhau bod lleisiau'r sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus yn cael eu hadlewyrchu ym mlaenoriaethau'r gyllideb. Mae'r fforymau hyn wedi rhoi mewnwelediadau gwerthfawr ar y pwysau sy'n wynebu cymunedau, a phwysigrwydd cynnal gwasanaethau craidd. Fe wnaethant rannu gwybodaeth am yr effeithiau posibl ar wasanaethau a ddarperir gan lywodraeth leol ynghylch dull y Gyllideb Ddrafft.
- Mae **Is-grŵp Cyllid Llywodraeth Leol** yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o lunio'r setliad llywodraeth leol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyllid gwaelodol a chynnydd chwyddiannol i sicrhau sefydlogrwydd a thegwch ar draws pob un o'r 22 o awdurdodau lleol. Byddwn yn parhau i edrych ar ragor o fesurau a chymorth wrth i ni baratoi'r setliad llywodraeth leol drafft yn ddiweddarach y mis hwn (Tachwedd) a'r Gyllideb Derfynol (Ionawr 2026).
- Roedd y **Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb** (BIIAG) yn allweddol yng nghanlyniadau ein hadolygiad o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol a'r broses newydd sy'n cael ei threialu eleni. Mae aelodau'r grŵp wedi cyflwyno tystiolaeth gan eu sefydliadau eu hunain i weithdai'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, ac rydym yn gobeithio cynnwys mwy o gyflwyniadau wrth baratoi'r Gyllideb Derfynol. Yn dilyn cyngor gan y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, bydd cam nesaf yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn ymgysylltu â rhwydweithiau staff Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ein sylfaen dystiolaeth yn cynnwys mewnwelediadau gan bobl sydd â phrofiad bywyd, a byddwn yn edrych ar ffyrdd o gynyddu cyllidebu cyfranogol yn y dyfodol.

### Effaith ar Benderfyniadau ynghylch y Gyllideb

Mae'r mewnwelediadau o'r digwyddiadau hyn wedi dylanwadu ar nifer o benderfyniadau allweddol:

- Mae'r dull o ymdrin â'r gyllideb yn sicrhau parhad a sefydlogrwydd, gyda chynnydd chwyddiannol yn cael ei roi ar waith ar draws pob adran, gan ddiogelu gwasanaethau rheng flaen ar yr un pryd â chynnal cyllid mewn termau real.

- Mae proses yr Asesiad Effaith Integredig Strategol wedi cael ei hailddylunio i fod yn fwy cyfranogol, gyda chomisiynwyr a rhanddeiliaid yn rhan o'r gwaith o siapio ei chynnwys a'i ffocws. Mae hyn yn sicrhau y bydd yr asesiad terfynol a gyhoeddir ym mis Ionawr yn adlewyrchu dealltwriaeth ehangach a dyfnach o effaith.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddeialog barhaus â rhanddeiliaid drwy gydol y cyfnod craffu, gan gydnabod nad yw'r cydweithio'n dod i ben pan gyhoeddir y Gyllideb Ddrafft ond ei fod yn parhau hyd at y Gyllideb Derfynol ac wedyn.

## Sut mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn rhan o'n Proses ar gyfer y Gyllideb

Yn dilyn adborth gan Bwyllgor Cyllid y Senedd a rhanddeiliaid, fe wnaethom gynnal adolygiad o broses yr Asesiad Effaith Integredig Strategol. Nododd yr adolygiad gryfderau—er enghraifft, ehangder y dystiolaeth a chysondeb â nodau strategol—ond hefyd feysydd i'w gwella, gan gynnwys amseru, eglurder ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Roedd y prif ganfyddiadau'n cynnwys:

- Yr angen i newid yr adeg cyhoeddi er mwyn cyfrannu at graffu ac i adlewyrchu newidiadau a wneir yn y gyllideb derfynol.
- Pwysigrwydd gwahaniaethu rhwng proses a chynnyrch.
- Gwerth cynnwys rhanddeiliaid drwy gydol cylch y gyllideb.

Ein nod ar gyfer yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yw ei fod yn cael ei ystyried yn broses, nid dogfen yn unig. Mae'n dechrau drwy gasglu tystiolaeth yn gynnar cyn gosod strategaeth y gyllideb cyn toriad yr haf. Mae'n parhau drwy weithdai a dadansoddiadau wrth i'r Gyllideb Ddrafft gael ei pharatoi, ac mae'n arwain at asesiad terfynol ar ôl craffu er mwyn ystyried yr holl benderfyniadau a osodwyd gerbron y Senedd yn y Gyllideb Derfynol. Mae'r dull iteraidd hwn yn sicrhau bod asesu effaith yn rhan annatod o'r broses o wneud penderfyniadau, ac nid yn rhywbeth i'w ychwanegu ar y diwedd.

## Y Camau Nesaf

Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol hwn yn gosod y sylfaen ar gyfer yr asesiad terfynol a fydd yn cyd-fynd â Chyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 ym mis Ionawr 2026. Mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i dryloywder, cydweithio a gwella'n barhaus o ran sut rydym yn asesu effaith penderfyniadau ynghylch y gyllideb.

Rhwng nawr a chyhoeddi'r Gyllideb Derfynol:

- Bydd rhagor o weithdai'n cael eu cynnal gyda swyddogion, arweinwyr polisi a rhanddeiliaid allanol i wella dealltwriaeth a mireinio'r asesiad.
- Bydd ymgysylltu â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb (BIIAG) yn parhau, gan sicrhau mewnbwn a her arbenigol drwy gydol y broses.
- Bydd sesiynau craffu yn cael eu cynnal ar draws y Senedd, a bydd eu hallbynnau’n cael eu hystyried yn ofalus er mwyn llywio'r Asesiad Effaith Integredig Strategol terfynol.
- Bydd dadansoddiad wedi'i dargedu yn cael ei gynnal mewn meysydd ffocws penodol, gan gynnwys hawliau plant, y Gymraeg, cydraddoldeb, anfantais economaidd-gymdeithasol, a gwariant ataliol.

Bydd canlyniad y gwaith hwn yn bwydo i mewn i’r cyngor i holl Ysgrifenyddion y Cabinet wrth wneud penderfyniadau terfynol am Gyllideb 2026-27. Yn ogystal â llywio'r dewisiadau unigol sydd ar gael, bydd y Cabinet yn ystyried canlyniad yr asesiad effaith llawn ar y cyd wrth drafod pecyn y Gyllideb Derfynol cyn ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2026.

Bydd adroddiad terfynol Asesiad Effaith Integredig Strategol 2026-27 yn adlewyrchu'r broses barhaus hon, gan ddarparu asesiad cynhwysfawr a strategol o unrhyw newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol. Bydd yn dangos sut mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried effeithiau ei phenderfyniadau ar draws dyletswyddau statudol a strategol allweddol, a sut mae cydweithio a chynnwys wedi siapio'r gyllideb i wasanaethu pobl Cymru yn well, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.